Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



Papur briffio tystiolaeth

# Hyrwyddo cydraddoldeb a chefnogi grwpiau agored i niwed

Mae’r papur briffio tystiolaeth hwn yn crynhoi rhai o’r heriau a chyfleoedd allweddol wrth hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn ystyried problemau rydym yn eu disgwyl i lywodraeth newydd Cymru eu hwynebu ar ôl etholiad Senedd 2021. Mae’n amlinellu rhai o’r mewnwelediadau allweddol o’n hymchwil ein hunain a’r gwaith rydym wedi’i wneud gyda phartneriaid arbenigol. Mae’r papur yn edrych yn benodol ar anghydraddoldebau yng Nghymru; mynd i’r afael â thlodi ac anghydraddoldeb economaidd; gwella arferion cyflogaeth ac yn y gweithle; mynd i’r afael ag anghydraddoldeb mewn iechyd a lles; gwella tai; a llywodraethu a llunio polisi yn effeithiol.

www.wcpp.org.uk

# Prif negeseuon

1 **Nid oes 'datrysiad cyflym' ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau.** Er bod profiadau cenhedloedd eraill yn ddefnyddiol i dynnu ohonynt, megis gwaith cenhedloedd Nordig wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol, nid oes un glasbrint ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Rhaid targedu camau gweithredu tuag at yr heriau penodol a wynebir yng Nghymru.

---

2 **Mae yna rai heriau mawr i hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru.** Mae gan Lywodraeth Cymru gymwyseddau cyfyngedig mewn rhai meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, megis nawdd cymdeithasol. Mae degawd o lymder, Brexit, a phandemig y coronafeirws wedi gwaethygu anghydraddoldebau. Mae'r ffactorau hyn yn gwneud cyflawni cydraddoldeb yn fwy heriol, ac yn debygol o barhau am beth amser.

---

3 **Serch hynny, mae rhai ysgogiadau strwythurol sydd o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru** – addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, a thai – sydd â'r potensial i fynd i'r afael yn effeithiol ag anghydraddoldebau lluosog.

---

4 **Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn effeithiol, mae angen newid diwylliannol a systemig, yn ogystal â newidiadau gweithdrefnol.** Bydd y rhain yn gofyn am gamau gweithredu ar ragfarnau sefydliadol, rhyngbersonol a mewnol, a all fod wedi'u gwreiddio, ac yn anodd eu symud.

---

5 **Mae arweinyddiaeth gan y llywodraeth wrth gydnabod anghydraddoldebau systemig yn benodol, ac ymrwymo i fynd i'r afael â nhw, yn gam hanfodol i hyrwyddo cydraddoldeb**. Mae hyn eisoes wedi'i ddangos yn nyheadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sicrhau cydraddoldeb rhywiol a hiliol. Mae ystyried cydraddoldeb mewn prosesau cyllidebu, er enghraifft drwy gyllidebu ar sail rhyw, yn un ffordd o ysgogi prif ffrydio cydraddoldeb.

---

6 **Nid cyfrifoldeb y llywodraeth yn unig yw hyrwyddo cydraddoldeb**. Mae angen cefnogaeth sefydliadol lefel uchel ar gyfer llunio polisïau ar sail tystiolaeth, ac ymgysylltu a chyd-gynhyrchu[1] â sefydliadau cydraddoldeb a dinasyddion, i gyflawni'r weledigaeth hon. Mae angen cefnogi ac ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau'r sector gwirfoddol, busnesau, y cyfryngau, a chymunedau yn y gwaith hwn.

---

7 **Dylai cyd-gynhyrchu fod wrth wraidd y broses o ddatblygu polisïau a gwasanaethau newydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.** Dylai'r rhai sydd â phrofiad byw o anghydraddoldebau fod yn bartneriaid wrth gynllunio, gweithredu a gwerthuso unrhyw fentrau.

**8 Nid yw rhaniadau cymdeithasol sy'n seiliedig ar nodweddion fel hil a rhyw yn gweithredu ar hyd echelinau unigol.** Mae angen i bolisïau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo cydraddoldeb ystyried sut mae anghydraddoldebau'n croestorri. Mae angen iddynt adlewyrchu, cyn belled ag y bo modd, bod amrywiaeth enfawr o hunaniaethau, cyfraniadau ac anghenion o fewn unrhyw 'grŵp' lleiafrifol, fel pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

---

**9 Mae gweithredu a chyflawni yr un mor bwysig â datblygu a chynllunio polisi wrth gyflawni amcanion cydraddoldeb.** Mae angen gwaith pellach i ddeall dulliau cyflawni effeithiol.



1 Mae cyd-gynhyrchu yn ymagwedd seiliedig ar asedau tuag at wasanaethau cyhoeddus, lle mae dinasyddion a darparwyr gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth i gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Am ragor o wybodaeth, gweler: www.copronet.wales

# Anghydraddoldebau yng Nghymru



Mae poblogaeth Cymru yn hŷn, yn dlotach, mewn iechyd gwaeth, ac â chyrhaeddiad addysgol a sgiliau is na chyfartaledd y DU. Mae anghydraddoldebau oedd yn bodoli eisoes, yn enwedig o ran hil, rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol ac anabledd, eisoes wedi'u gwaethygu gan bandemig y coronafeirws, a bydd hyn yn parhau yn y cyfnod adfer a thu hwnt.

> **Bu cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran hyrwyddo cydraddoldeb, megis cyfraddau cyflogaeth yn codi (cyn dechrau pandemig y coronafeirws), cynnydd yn nifer yr oedolion â chymwysterau, a gwell cynrychiolaeth o fenywod mewn bywyd cyhoeddus**

Bu cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran hyrwyddo cydraddoldeb, megis cyfraddau cyflogaeth yn codi (cyn dechrau pandemig y coronafeirws), cynnydd yn nifer yr oedolion â chymwysterau, a gwell cynrychiolaeth o fenywod mewn bywyd cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithredu nifer o fentrau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo cydraddoldeb, o brosiectau cydraddoldeb a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gynlluniau gweithredu ar gydraddoldeb rhywiol a chydraddoldeb hiliol.

Fodd bynnag, mae yna feysydd sydd angen sylw wedi'i dargedu. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar yr angen i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb economaidd, gwella arferion cyflogaeth a recriwtio, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn iechyd a lles, gwella tai, a llywodraethu a llunio polisi yn effeithiol.

# Mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb economaidd

Mae bron i chwarter poblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi – cyfran uwch nag yng ngwledydd eraill y DU. Mae plant mewn perygl arbennig, gyda thua un o bob tri yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd. Mae tlodi yn debygol o gynyddu dros y blynyddoedd i ddod oherwydd pandemig y coronafeirws ac o bosibl oherwydd Brexit. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wrthi'n cynnal adolygiad rhyngwladol o strategaethau gwrthdlodi effeithiol i lywio datblygiad ymateb Llywodraeth Cymru i'r her gynyddol hon.

## Mae diwygiadau posibl sydd o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru yn niferus

**Gall gwella'r system nawdd cymdeithasol fynd i'r afael â materion tlodi ac anghydraddoldeb economaidd.** Er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau cyfyngedig dros nawdd cymdeithasol, mae'n gwario £400 miliwn yn flynyddol ar gynlluniau datganoledig i gefnogi pobl mewn tlodi. Gallai gwneud y mwyaf o'i phwerau presennol helpu i wella bywydau'r rhai sydd mewn tlodi. Mae diwygiadau posibl sydd o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru yn niferus, a gallent gynnwys gwell cymorth (a hwnnw'n fwy cydgysylltiedig) i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau, er mwyn mynd i'r afael â heriau sydd gan y system bresennol; cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau; darparu hyfforddiant amgen neu well i'r rhai sy'n gweinyddu budd-daliadau; ac ychwanegu at y budd-daliadau presennol. Mae Sefydliad Bevan wedi argymell creu system fudd-daliadau i Gymru, er mwyn gwella cydlyniad pob math o fudd-daliadau.

Mae'r angen i fynd i'r afael â thlodi gwledig yn fater penodol yng Nghymru, gyda bron i chwarter y boblogaeth wledig yn byw mewn tlodi. **Mae cymunedau gwledig, gan gynnwys y rhai yng Nghymoedd y De, yn debygol o fod yn arbennig o agored i ergydion economaidd cyfunol y pandemig a Brexit.** Mae tystiolaeth yn awgrymu, o ystyried achosion cymhleth, cydberthynol tlodi gwledig, ei bod yn bwysig hybu cyfalaf cymdeithasol, amgylcheddol ac iechyd mewn cymunedau ochr yn ochr â mesurau i gynyddu ffyniant economaidd. Yn ogystal â darparu gwasanaethau lles ac iechyd, **mae angen camau gweithredu ar y cyd i wella darpariaeth tai a gwasanaethau trafnidiaeth ac i greu cyfleoedd cyflogaeth teilwng a diogel.** Gall ymyriadau ar sail lleoedd alluogi dull cydgysylltiedig a chyfranogol sydd wedi'i deilwra i fynd i'r afael ag anghenion cymunedau lleol ac i adeiladu asedau lleol. Fodd bynnag, maent yn annhebygol o effeithio ar lefelau tlodi cenedlaethol oni bai eu bod yn cael eu cyflawni'n eang ac ar raddfa.

I'r rhai ar incwm isel, cael mynediad at gredyd cost uchel yw'r unig ffordd o gael dau ben llinyn ynghyd weithiau. Fodd bynnag, gall hyn arwain at ddyled broblemus, a all gadw pobl mewn tlodi am hirach, ac sy'n cyfrannu at ystod o ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwael. **Gallai cefnogi twf y farchnad gredyd fforddiadwy,** ynghyd â gwella gwasanaethau addysg a chyngor, sicrhau'r defnydd strategol o reoleiddio, a galluogi arloesi mewn credyd fforddiadwy, helpu'r rhai sy'n fwyaf tebygol o ddefnyddio credyd cost uchel, yn enwedig mewn ymateb i ergydion bywyd, y bydd y pandemig yn sicr wedi'u hysgogi.

# Gwella arferion cyflogaeth ac yn y gweithle



Nid yn unig yw cyflogaeth annigonol neu o ansawdd gwael yn sbardun allweddol anghydraddoldeb economaidd, ond yn sbardun hefyd lle gall anghydraddoldebau a mathau eraill o wahaniaethu amlygu eu hunain a rhyngweithio.

Mae cam-fanteisio ar weithwyr, sy'n ymdrin â thorri hawliau dynol yn ogystal â mân achosion o dorri cyfraith cyflogaeth, yn gyffredin mewn ffurfiau 'annerbyniol' o waith (o'u cymharu â gwaith 'gweddus'). Mae'r rhai sydd mewn ffurfiau annerbyniol o waith yn tueddu i fod yn grwpiau sydd eisoes mewn perygl o fod dan anfantais, gan gynnwys menywod, ymfudwyr, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a phobl ifanc.

Mae gweithwyr yng Nghymru (a'r DU ehangach) mewn perygl o fod yn destun cam-fanteisio oherwydd problemau o ran gorfodi safonau llafur. Gallai gwelliannau yn y maes hwn sy'n canolbwyntio ar anghenion gweithwyr Cymru, yn enwedig o ran cydymffurfio â'r deddfau isafswm cyflog, helpu i leihau'r risg hon.

Mae gwahaniaethu yn y gweithle yn rhwystr allweddol y mae grwpiau lleiafrifol yn ei wynebu wrth geisio cynnal cyflogaeth a gwneud cynnydd. Gellir mynd i'r afael â gwahaniaethu a hiliaeth yn y gweithle trwy:

- Sefydliadau'n gweithredu hyfforddiant amrywiaeth a rhagfarn ddiarwybod a gyd-ddyluniwyd yn ofalus ar gyfer staff ar bob lefel, trwy lens wrth-hiliol benodol;
- Meithrin diwylliant sefydliadol cynhwysol sydd â chefnogaeth ac ymrwymiad llawn gan uwch-arweinwyr ac arweinwyr lefel ganol, ac sy'n annog ymgynghreirio ac ymyrraeth gan wyliedyddion, lle mae pobl o gefndiroedd breintiedig yn gweithio'n rhagweithiol i ddileu rhagfarn a gwahaniaethu ynddynt eu hunain, a phan arsylwir arnynt yn eu bywydau beunyddiol;
- Gwella gweithdrefnau ar gyfer adrodd achosion o wahaniaethu, a rheoli camau disgyblu; a
- Gwneud cyhoeddi data a all helpu i ddwyn cyflogwyr i gyfrif yn orfodol, megis ar fylchau cyflog ar sail hil a rhywedd, a digwyddiadau perthnasol eraill, er enghraifft digwyddiadau hiliol.

Gallai **gwella tâl ac amodau ar gyfer y rhai sydd fwyaf tebygol o wynebu gwahaniaethu** helpu i liniaru rhai o effeithiau tymor hwy posibl pandemig y coronafeirws. Gallai newid tymor hwy i weithio o bell greu amgylcheddau gwaith mwy cynhwysol i bobl anabl a phobl â chyfrifoldebau gofalu. Fodd bynnag, mae traean y gweithwyr yng Nghymru mewn sectorau â chyflog isel sydd yn aml y lleiaf abl i gynnig gweithio o bell. Gallai cefnogi menywod a phobl o leiafrifoedd ethnig symud i sectorau â chyflog uwch helpu i liniaru effeithiau andwyol y pandemig ar fylchau cyflog ar sail hil a rhywedd.

Ymhlith y ffyrdd o helpu gweithwyr sy'n fenywod, lleiafrifoedd ethnig ac anabl yn benodol mae hyrwyddo dilyniant swydd mewn sectorau â chyflog isel, trwy fentrau uwchsgilio sy'n cael eu cefnogi gan bartneriaid a chyflogwyr lleol – cyfleoedd dysgu wedi'u teilwra, mentora, a chreu marchnadoedd llafur mewnol. Gall cynlluniau achredu, yn enwedig pan fyddant ynghlwm wrth gyllid neu gymhellion eraill, hefyd o bosibl helpu i annog cyflogwyr i wella cyflog, amodau a chynnydd ymhlith gweithwyr lleiafrifol.

Gall gwell arferion recriwtio a dilyniant gynyddu cynrychiolaeth a dilyniant ymhlith grwpiau lleiafrifol. Mae arferion mwy cynhwysol yn cynnwys:

- Gosod a monitro targedau amrywiaeth sy'n gysylltiedig â recriwtio yn gyhoeddus;
- Ystyriaeth ofalus o'r iaith a ddefnyddir mewn hysbysebion swyddi, a lle gosodir hysbysebion;
- Ceisiadau nad ydynt yn cynnwys enwau a chyfeiriadau ymgeiswyr, neu'n sôn am sefydliadau penodol;
- Rhestrau byr sy'n adlewyrchu amrywiaeth;
- Cydnabod mathau ehangach o brofiad;
- Ymgysylltu â rhwydweithiau arbenigol, megis sefydliadau a grwpiau anabledd neu leiafrifoedd ethnig;
- Gwella hygyrchedd cyfweliadau neu gyfleoedd datblygu; a
- Chefnogaeth i recriwtiaid newydd fel mentora, nawdd a rhwydweithiau staff.

# Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn iechyd a lles



Mae'r pandemig wedi dod ag anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes mewn iechyd a lles i'r amlwg, ac wedi'u gwaethygu, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â hil ac ethnigrwydd. Yng Nghymru, mae anghydraddoldebau hiliol parhaus mewn iechyd, mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol, a lefelau unigrwydd, ymhlith gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd eraill. Yn ogystal â mynd i'r afael â gyrwyr economaidd-gymdeithasol anghydraddoldeb iechyd, megis ansicrwydd incwm a chyflogaeth a thai gorlawn ac o ansawdd gwael, mae angen newidiadau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymhlith y strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn mae darpariaeth iechyd a gofal anwahaniaethol, diwylliannol sensitif a gwrth-hiliol, a gwell prosesau ar gyfer casglu, monitro ac adrodd ar ddata. Gellir cefnogi strategaethau o'r fath gan fframweithiau sefydliadol gorfodol a chynlluniau ardystio. Mae cyfathrebu hyrwyddo ac atal iechyd y cyhoedd, sy'n cael ei gyd-gynhyrchu gyda chymunedau ac sy'n defnyddio negeseuon wedi'u teilwra ac aml-sianel, hefyd yn bwysig.

**Mae unigrwydd yn gysylltiedig ag ystod o ganlyniadau iechyd a lles gwael. Mae pobl iau a'r rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl neu sydd ag iechyd cyffredinol gwael yn arbennig o agored i unigrwydd**

**Gall gwell cefnogaeth ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o leiafrifoedd ethnig helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol yn y gweithlu**. Yn y DU, mae'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli mewn swyddi statws is a chyflog is iechyd a gofal cymdeithasol. Mae strategaethau i wella amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithlu iechyd a gofal yn cynnwys targedau recriwtio a dilyniant, cefnogaeth gan arweinwyr ac atebolrwydd, yn ogystal â gwneud arferion recriwtio a dilyniant yn fwy cynhwysol. Mae angen cyfuno hyn â ffocws ar hyrwyddo gweithleoedd sy'n ddiogel yn seicolegol.

**Mae unigrwydd yn gysylltiedig ag ystod o ganlyniadau iechyd a lles gwael**. Mae pobl iau a'r rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl neu sydd ag iechyd cyffredinol gwael yn arbennig o agored i unigrwydd. Mae brwydro yn erbyn unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn reddfol yn golygu ymyriadau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, pan nad yw hyn yn bosibl, fel sydd wedi digwydd gyda'r cyfyngiadau cymdeithasol o ganlyniad i'r pandemig, gall ymyriadau wedi'u gwella gan dechnoleg fel fideogynadledda helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol. Mae ymyriadau wedi'u galluogi gan dechnoleg yn debygol o fod yn fwy effeithiol os cânt eu cynllunio yn unol ag egwyddorion allweddol ynghylch 'beth rydych chi'n ei wneud', megis cysylltiad trwy weithgareddau sy'n ystyrlon i bobl, a 'sut rydych chi'n ei wneud', fel cyd-ddylunio'r ymyrraeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau.

Er mwyn osgoi atgyfnerthu anghydraddoldebau presennol, mae angen strategaethau ar gyfer ymyriadau effeithiol sydd wedi'u galluogi gan dechnoleg i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Ymhlith y rhai sydd fwyaf mewn perygl o gael eu gwahardd yn ddigidol mae pobl dros 65 oed, pobl anabl, tenantiaid tai cymdeithasol, y rhai sy'n ddigartref, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

# Gwella tai



Mae ansawdd, fforddiadwyedd a hygyrchedd tai yn benderfynyddion allweddol ystod o ganlyniadau iechyd, lles a thlodi. Yng Nghymru, mae'r rhai tlotach yn gwario mwy o'u hincwm ar dai na'r rhai sy'n fwy cyfoethog – tuedd sydd wedi bod yn cynyddu am y ddau ddegawd diwethaf. Er bod ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd o leiaf 10% o dai cymdeithasol yn dal i beidio â chyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2018.

Gellir defnyddio polisi tai i hyrwyddo cydraddoldeb mewn sawl ffordd. Gall lleihau costau tai helpu i fynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys tlodi gwledig.

Mae mesurau'r llywodraeth i liniaru tlodi gwledig yn cynnwys creu'r amodau lle gall mentrau yn y gymuned lwyddo, a darparu'r sefydlogrwydd sydd ei angen i'r sector preifat wneud buddsoddiadau tymor hir. Dylai hyn fod gyda **chefnogaeth ar gyfer rheolaeth ariannol, cynllunio, dylunio, ac adeiladu tai fforddiadwy**, a chreu partneriaethau effeithiol rhwng y llywodraeth a rhanddeiliaid eraill.

**Gall cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd hefyd gefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig**, sy'n fwy tebygol o fod dan anfanteision o ran tai na phobl wyn.

## Mae grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref na'r rhai sy'n wyn

Mae mesurau eraill i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys sicrhau rôl fwy canolog i gymdeithasau tai lleiafrifoedd ethnig wrth ddarparu tai cymdeithasol wedi'u targedu, ac adlewyrchu anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig mewn cynlluniau datblygu ac asesiadau tai lleol. **Mae gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr anghenion tai a llety penodol y mae angen eu deall yn well a mynd i'r afael â hwy**, er enghraifft, trwy gynyddu nifer y lleiniau o ansawdd ac mewn lleoliad da sydd ar gael, gan gynnwys ar gyfer lleoedd stopio dros dro.

Er nad yr unig ffactor, mae tai yn sicr yn ffactor allweddol wrth atal digartrefedd. Mae nifer y rhai sy'n cysgu allan yng Nghymru a nifer y bobl ifanc sy'n ddigartref wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gellir mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc trwy ddarparu a gwarchod tai i bobl ifanc sydd mewn perygl, gyda chymorthdaliadau a chymorth ariannol yn cynyddu sefydlogrwydd y sefyllfa llety. **Mae grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref na'r rhai sy'n wyn**. Dylai eu hanghenion fod yn rhan o strategaeth ddigartrefedd Llywodraeth Cymru a dylid darparu mynediad i ffoaduriaid i lety symud ymlaen addas ar ôl hawliad lloches llwyddiannus.

Gall gwell cefnogaeth i'r rheini sydd mewn dyled gysylltiedig â thai i wasanaethau cyhoeddus (h.y. dyled treth gyngor neu ôl-ddyledion mewn rhent tai cymdeithasol) helpu i osgoi achosion llys, troi allan (a all arwain at ddigartrefedd) ac adfeddiant. Mae dyled treth gyngor yng Nghymru wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda bron i draean o denantiaethau tai cymdeithasol yng Nghymru mewn ôl-ddyledion yn 2017. Mae tystiolaeth yn dangos bod camau cadarnhaol i gefnogi'r rheini sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus yn cynnwys cefnogaeth ragweithiol ac wedi'i phersonoli, a ddarperir trwy bartneriaethau amlasiantaethol; adeiladu ymddiriedaeth rhwng dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus; nodi problemau ac ymyrryd yn gynnar; llwybrau atgyfeirio llyfn; a mynediad at gyngor dyled annibynnol.

**Gall buddsoddi mewn addasiadau tai helpu pobl i fyw gartref yn ddiogel am gyfnod hirach**, sydd, yn ei dro, yn lleihau'r pwysau ar gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl anabl yn wynebu amseroedd aros hir am grantiau cyfleusterau i'r anabl, sy'n cefnogi pobl i wneud addasiadau i'w cartrefi. Gallai newidiadau i'r ffordd y mae grantiau cyfleusterau i'r anabl yn cael eu darparu helpu i leihau amseroedd aros a sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cyrchu'r addasiadau sydd eu hangen arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys cael gwared ar y prawf modd ar gyfer grantiau bach a chanolig, a gwella'r defnydd o therapyddion galwedigaethol ac aseswyr hyfforddedig, a chomisiynu contractwyr.

# Llywodraethu a llunio polisi yn effeithiol

Gall dull Llywodraeth Cymru o lywodraethu a llunio polisïau hefyd helpu i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys integreiddio persbectif cydraddoldeb yn y broses gyllidebu; sicrhau cyrff cyhoeddus cynrychioliadol; galluogi cyd-gynhyrchu wrth ddylunio a chynllunio polisi; a mynd i'r afael â'r 'bwlch gweithredu' wrth gyflawni polisïau.

> **Mae llawer o'r amodau sy'n angenrheidiol i Gymru fabwysiadu cyllidebu ar sail rhyw eisoes ar waith mewn ymrwymiadau polisi ar gydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd**

O ran cydraddoldeb rhywiol, canfu ymchwil ar gyfer Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol Llywodraeth Cymru nad cyfrifoldeb y llywodraeth yn unig yw sicrhau cydraddoldeb rhywiol, ond hefyd gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, busnesau, y cyfryngau, a'r gymdeithas yn gyffredinol. Mae prif ffrydio rhywedd – gan ystyried rhywedd wrth ddatblygu pob polisi a dylunio polisïau penodol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol – yn fecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau cydraddoldeb rhywiol. Mae prif ffrydio rhywedd yn llwyddiannus yn gofyn am newid diwylliant, perchnogaeth wleidyddol, asesiadau effaith ar sail rhyw, a meithrin gallu ymhlith swyddogion a Gweinidogion.

Gall cyllidebu ar sail rhyw, lle mae persbectif rhyw wedi'i integreiddio i'r broses gyllidebol, ysgogi prif ffrydio rhywedd ac mae hyn yn rhywbeth sydd eisoes yn cael ei dreialu yng Nghymru. **Mae llawer o'r amodau sy'n angenrheidiol i Gymru fabwysiadu cyllidebu ar sail rhyw eisoes ar waith mewn ymrwymiadau polisi ar gydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd**. Gallai craffu ar yr holl gyllidebau am eu heffaith ar anghydraddoldebau eraill megis hil, dosbarth ac anabledd, a chroestoriad yr anghydraddoldebau hyn, hefyd helpu i hyrwyddo amcanion cydraddoldeb ehangach trwy'r broses llunio polisi.

Mae sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn fecanwaith pwysig y gall Llywodraeth Cymru hyrwyddo cydraddoldeb drwyddo. Ar hyn o bryd, mae pobl anabl a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli ar fyrddau cyrff cyhoeddus. Mae strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn rhoi cyfle i Gymru fod yn arweinydd ymhlith cenhedloedd y DU wrth arddangos arfer gorau i sicrhau mwy o amrywiaeth yn y maes hwn. **Mae strategaethau i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yn cynnwys cefnogaeth i ymgeiswyr fel mentora, hyfforddi, cyfleoedd cysgodi ac arsylwi, cefnogaeth gan cgmheiriaid, ac amlygiad i fodelau rôl**. Ond rhaid cyfuno hyn â chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau ar lefel y system y mae rhai grwpiau yn eu hwynebu ym mywyd bob dydd.

Yn ogystal â sicrhau bod grwpiau lleiafrifol yn cael eu cynrychioli ymhlith arweinwyr a llunwyr polisi, **mae angen i'r broses llunio polisi gynnwys y rhai y mae'n ceisio gwella eu bywydau**. Dylai cyd-gynhyrchu fod wrth wraidd datblygu polisïau a gwasanaethau newydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gyda'r rhai sydd â phrofiad byw o anghydraddoldebau yn ymwneud â dylunio, gweithredu a gwerthuso unrhyw fentrau. Er na fydd hyn yn briodol ar bob cam, nac ym mhob agwedd ar y broses llunio polisi, dylid ystyried sut, pryd a pham y gall llunwyr polisi gynnwys a phartneru orau ag 'arbenigwyr yn ôl profiad' ar draws meysydd polisi.

Bydd llwyddiant unrhyw fentrau polisi sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn dibynnu cymaint ar eu gweithredu a'u cyflawni ag ar y ffordd y cawsant eu cynllunio a'u datblygu.

**Mae'r ffaith fod llawer o ddyheadau cyfraith, polisïau a strategaethau cydraddoldeb heb eu gwireddu yn ymarferol hyd yn hyn yn tystio i 'fwlch gweithredu' sylweddol**, ac mae angen ymchwil ac arbrofi pellach i ddeall sut i oresgyn y bwlch hwn. Ond mae mecanweithiau allweddol yn debygol o gynnwys: blaenoriaethu nifer hylaw o flaenoriaethau i ganolbwyntio arnynt; buddsoddi amser sylweddol mewn cynllunio a pharatoi a deall y cyd-destun; peidio â bod ofn rhoi'r gorau i waith cyflawni na'i addasu; gosod targedau gweladwy, uchelgeisiol ac ystyrlon yn lleol sy'n dwyn arweinwyr a sefydliadau i gyfrif yn gyhoeddus o ran eu cyflawni; casglu a defnyddio data monitro a gwerthuso cadarn yn rheolaidd; ac arweinyddiaeth ddynodedig a dosbarthedig.

# Awduron yr adroddiad

Mae Emma Taylor-Collins yn Uwch-swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae Amanda Hill-Dixon yn Uwch-gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Gallwch ddarllen ein holl waith ar hyrwyddo cydraddoldeb a chefnogi grwpiau agored i niwed yma.**



# Amdanom ni

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at a defnyddio tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae gofyn cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol i'r Llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr ar lefel genedlaethol a lleol i ddatblygu syniadau o'r newydd am sut i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol sy'n wynebu Cymru.

Mae gwaith y Ganolfan yn cwmpasu ystod eang o bolisïau, ond ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol
- Iechyd a gofal cymdeithasol oedolion
- Llywodraethu a gweithredu effeithiol
- Hyrwyddo cydraddoldeb
- Economi a sgiliau
- Plant sy'n derbyn gofal

I gael rhagor o wybodaeth ac i lawrlwytho ein hadroddiadau a'n sesiynau briffio polisi ar y pynciau hyn a phynciau eraill, ewch i www.wcpp.org.uk.

---

**Wales Centre for Public Policy**
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd CF10 3BG

www.wcpp.org.uk
info@wcpp.org.uk
029 2087 5345
@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru / Welsh Government